| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | **Pwyllgor Archwilio Cymunedau** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **6 Mawrth 2014** |
| **Aelod Arweiniol:** | **Aelod Arweiniol Parth Cyhoeddus** |
| **Awduron yr Adroddiad:** | **Pennaeth Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd a Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd** |
| **Teitl:** | **Cynnig i ymgynghori ar gyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn.** |

---

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1 Mae'r adroddiad ynglŷn â'r posibilrwydd i'r Cyngor gyflwyno rheolaethau cyfreithiol ychwanegol ar gyfer cŵn a'u perchnogion ar draws y Sir. Y bwriad yw hysbysu'r Aelodau am bwerau cyfreithiol ychwanegol sydd ar gael i'r Cyngor i'w gorfodi yn erbyn perchnogion cŵn anghyfrifol. Y pŵer cyfreithiol penodol mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag ef yw Gorchmynion Rheoli Cŵn.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1 Mae angen gwneud penderfyniad i ganiatáu i Swyddogion symud ymlaen gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn ar draws y Sir.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Ystyried cynnwys yr adroddiad a chytuno gyda'r opsiynau Gorchymyn Rheoli Cŵn a gyflwynwyd yn yr adroddiad;

3.2 Caniatáu i Swyddogion symud ymlaen gydag ymgynghoriad cyhoeddus ar gyflwyno Gorchmynion Rheoli Cŵn ar draws y Sir; a

3.3 Rhoi barn ar beth fyddai'r gosb ariannol briodol ar gyfer Hysbysiad Cosb Benodedig (HCB) mewn cysylltiad â'r Gorchmynion Rheoli Cŵn arfaethedig.

## 4. Manylion yr adroddiad.

4.1 Mae cŵn yn baeddu ledled y Sir yn cael ei reoli ar hyn o bryd drwy'r Ddeddf Cŵn (Baeddu Tir) 1996. Mae'r Ddeddf hon yn ei gwneud yn anghyfreithlon i beidio casglu carthion ar ôl i'ch ci faeddu. Fodd bynnag, mae yna eithriadau ar fathau penodol o dir cyhoeddus, gan gynnwys tir a ddefnyddir ar gyfer amaethyddiaeth neu goetiroedd, tir comin gwledig, tir sy'n gorstir yn bennaf, rhostir neu weundir a thir y briffordd gyda chyfyngiad cyflymder o 40mya neu fwy. Ni ellir cynnal unrhyw orfodaeth yn y mannau hyn ar hyn o bryd.

4.2 Mae Deddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005 yn rhoi pwerau dewisol i awdurdodau lleol greu Gorchmynion Rheoli Cŵn lleol sy'n adlewyrchu problemau lleol mewn perthynas â chŵn yn baeddu a materion rheoli cŵn eraill. Mae Gorchmynion Rheoli Cŵn o'r fath felly yn rhoi'r dewis i'r Cyngor fabwysiadu mesurau rheoli ychwanegol a dileu'r eithriadau deddfwriaethol presennol.

4.3 Mae cŵn yn baeddu yn ffynhonnell gwynion barhaus a derbyniodd y Cyngor 374 o gwynion am gŵn yn baeddu rhwng Chwefror a Hydref 2013. Rydym wedi derbyn nifer o gwynion gan Aelodau a'r cyhoedd mewn perthynas â chŵn yn baeddu ar gaeau chwaraeon, caeau chwarae, llwybrau troed cyhoeddus ac ati a hyd yn hyn, mae ein pwerau wedi'u cyfyngu i gymryd camau yn erbyn perchennog y ci am adael i'w gi faeddu mewn ardaloedd o'r fath. Mae yna ddadl gwella iechyd y cyhoedd ac amwynder clir dros gyflwyno mwy o fesurau rheoli cyfreithiol ar ffurf Gorchmynion Rheoli Cŵn i fynd i'r afael â'r broblem o reoli cŵn mewn ffordd wahanol ac yn fwy cadarn.

4.4 Cynigir bod 3 Gorchymyn Rheoli Cŵn yn cael eu cyflwyno yn amodol ar ymgynghori i geisio barn y cyhoedd /Cynghorau Dinas/Tref/Cymuned a budd-ddeiliaid perthnasol eraill. Maent fel a ganlyn:

- Gorchymyn Cŵn yn Baeddu Tir Drafft (Cyngor Sir Ddinbych) 2014. Bydd hyn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i faeddu ar unrhyw dir o fewn ardal weinyddol y Cyngor oni bai bod y person wedi cael caniatâd y tirfeddiannwr.

- Gorchymyn Cŵn ar Dennyn drwy Gyfarwyddyd Drafft (Cyngor Sir Ddinbych) 2014. Bydd hyn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i fod yn gyfrifol am gi nad yw ar dennyn ar unrhyw briffordd neu unrhyw dir arall sydd ag arwyddion clir ym mhob mynedfa yn amlygu bod yn rhaid cadw cŵn ar dennyn. Mae'r ardaloedd 'tir arall' wedi'u mireinio yn Atodiad 1.

- Gorchymyn Gwahardd Cŵn Drafft (Cyngor Sir Ddinbych) 2014. Bydd hyn yn ei gwneud yn anghyfreithlon i gŵn fynd i mewn i ardal ddynodedig sydd ag arwyddion clir wrth bob mynedfa bod cŵn yn cael eu heithrio'n benodol. Bydd yr ymgynghoriad yn nodi'n union pa ardaloedd rydym yn awgrymu y gellid eu cynnwys fel ardaloedd gwahardd, ac maent yn cael eu rhestru yn Atodiad 2.

4.5 Bydd torri'r Gorchmynion hyn yn arwain at drosedd y gellir naill ai eu herlyn yn y Llys Ynadon neu caiff perchennog y ci'r cyfle i dalu HCB rhwng £75 a £150. Gwahoddir yr aelodau i roi barn ar lefel y gosb ariannol. Lefel bresennol y gosb ariannol am adael i'ch ci faeddu yw £75.

4.6 Bydd ein dull gorfodi llym am beidio â thalu HCB yn parhau a byddwn yn erlyn unrhyw berson sy'n dewis peidio â thalu eu HCB.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Mae’r orfodaeth cŵn yn baeddu’n cyfrannu'n uniongyrchol at y Flaenoriaeth Gorfforaethol o strydoedd glân a thaclus. Mae hefyd yn rhan annatod o'r Strategaeth Gwrth-Faeddu corfforaethol.

## 6. Beth fydd yn ei gostio a sut bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1 Nid oes unrhyw gostau sylweddol arfaethedig neu a ragwelir o ganlyniad i ymgynghori ar y Gorchmynion Drafft. Gellir cwrdd â’r gost o sefydlu'r Gorchmynion ac ymgynghori o fewn y cyllidebau presennol. Bydd yna gostau ar gyfer cynhyrchu arwyddion rhybudd gorfodi newydd i’w lleoli o amgylch y Sir, ac ar gyfer cyfrifoldebau gorfodi ychwanegol. Mae'r rhain yn faterion i'w hystyried yn fwy manwl yn y cyfnod mabwysiadu, ar ôl yr ymgynghoriad.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd ar gyfer y penderfyniad? Dylid cynnwys yr Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb a gwblhawyd fel atodiad i'r adroddiad.

7.1 Bydd asesiad o effaith ar gydraddoldeb llawn yn cael ei wneud yn dibynnu ar farn y Pwyllgor o ran y manylion ar yr hyn y dylid ei gynnwys yn yr ymgynghoriad. Nid oes angen asesiad o'r fath ar hyn o bryd.

## 8. Pa ymgynghori a gwblhawyd gydag Archwilio ac eraill?

8.1 Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol eisoes gyda'r Aelod Arweiniol (Parth Cyhoeddus) a'r Heddlu, sy'n cefnogi’r ymgynghoriad arfaethedig. Mae’r Aelodau wedi cytuno bod angen rheolaethau cyfreithiol ychwanegol ar ffurf Gorchmynion Rheoli Cŵn o’r blaen fel rhan o Strategaeth Gwrth-Faeddu Corfforaethol y Cyngor. Cynhaliwyd ymgynghoriad anffurfiol gydag Awdurdodau Lleol eraill hefyd sydd wedi mynd drwy'r broses o ymgynghori i gyflwyno Gorchmynion o’r fath ac mae gwersi wedi’u dysgu drwy'r broses hon i leihau unrhyw risg i'r Cyngor.

8.2 Os rhoddir caniatâd i symud ymlaen, yna bydd cyfnod o ymgynghori am 28 diwrnod yn digwydd gyda Chynghorau Dinas, Tref a Chymuned, Cynghorwyr Sir, aelodau'r cyhoedd a budd-ddeiliaid eraill a nodwyd. Bydd hyn yn cynnwys darparu’r ymgynghoriad mewn llyfrgelloedd, siopau un stop, ar y wefan a chyfathrebu uniongyrchol gyda grwpiau fel grwpiau perchnogion/cerddwyr cŵn ac ati. Bydd yna hysbyseb yn y wasg leol hefyd.

8.3 Bydd yr holl ymatebion yn cael eu hystyried yn dilyn yr ymgynghoriad. Bydd y rhain yn cael eu trafod yn y lle cyntaf gyda'r Aelod Arweiniol. Bydd adroddiadau pellach yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Archwilio a'r Cyngor Llawn yn dilyn yr ymgynghoriad ar weithredu'r Gorchmynion.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ar hyn o bryd. Fodd bynnag, byddai angen gwybodaeth am gostau pellach petai’r Cyngor yn penderfynu cyflwyno’r Gorchmynion hyn.

## 10. Pa risgiau sy’n bodoli ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1 Mae’n bosibl y bydd ymwelwyr a thrigolion sy’n berchnogion cŵn yn teimlo'n bryderus am y Gorchmynion arfaethedig. Byddwn angen sicrhau bod yr ymgynghoriad a'r cyhoeddusrwydd cysylltiedig yn tynnu sylw at fanteision cyflwyno Gorchmynion o'r fath i'r gymuned gyfan, h.y. ‘rydym yn ceisio cymryd camau cytbwys, a ddylid casglu baw cŵn ar draws y Sir? A ddylai cŵn gael eu heithrio o rai ardaloedd allweddol? A ddylai cŵn gael eu cadw ar dennyn mewn ardaloedd penodol?

10.2 Os yw'r Gorchmynion yn cael eu gweithredu, bydd angen i'r camau gorfodi fod yn sensitif, yn gymesur a graddol gan gynnwys defnyddio rhybuddion geiriol, bydd angen cyflwyno arwyddion a chyhoeddusrwydd priodol hefyd.

## 11. Pŵer i wneud y Penderfyniad

11.1 Mae'r pŵer i Awdurdod Lleol wneud Gorchymyn o dan Adran 55 o Ddeddf Cymdogaethau Glân a'r Amgylchedd 2005.

11.2 Mae Erthygl 6.3.3 o Gyfansoddiad y Cyngor yn nodi’r pŵer Archwilio o ran datblygu ac adolygu polisi.

**Swyddog Cyswllt:**
Rheolwr Gwarchod y Cyhoedd
Ffôn: 01824 706350

**Atodiad 1**

'Tir arall' lle dylai cŵn fod ar dennyn:

Y promenâd ar hyd yr arfordir a’r llwybr arfordirol

Tir cyfagos i gaeau chwaraeon wedi'u marcio ac ardaloedd chwarae plant heb fod yn gaeedig

**Atodiad 2**

Ardaloedd posibl lle dylai cŵn gael eu heithrio:

Ardaloedd chwarae plant caeedig

Mynwentydd

Lawntiau Bowlio

Ardaloedd chwarae diffiniedig eraill
Caeau chwaraeon wedi'u marcio

Ardaloedd traethau (eithrio tymhorol rhwng 31 Mai a 30 Medi)

Canolfannau Hamdden

Ysgolion ac Adeiladau/Safleoedd Addysgol